# Polisi Cyfryngau Cymdeithasol

| | | |
|---|---|---|
| Paratowyd gan: | Cyfarwyddwr Arloesedd a Strategaeth Ddigidol | |
| Cymeradwywyd y Polisi gan: | Uwch Dîm Rheoli | 06/09/22 |
| | Cyfarfod gweithgor yr undeb | 11/10/22 |
| | Adnoddau | 15/11/22 |
| Aseswyd ei Effaith: | Gorffennaf 2022 | |
| Adolygwyd: | Polisi newydd | |
| Dyddiad Adolygu: | Medi 2025 | |

1. **Cyflwyniad**
2. **Diben**
3. **Cwmpas**
   3.1 Diffiniadau
4. **Rheolaeth Sefydliadol**
   4.1 Rolau a chyfrifoldebau
   4.2 Proses ar gyfer Creu Cyfrifon Cyfryngau Cymdeithasol
   4.3 Monitro Cyfrifon Cyfryngau Cymdeithasol
   4.4 Cyfrifoldebau
   4.5 Cymedroli cynnwys
5. **Arfer sy'n cael ei annog**
6. **Recriwtio staff**
7. **Defnyddiau Posib Eraill**
8. **Monitro ac adolygu**

**Atodiad 1 – Canllawiau**

## 1 Cyflwyniad

Mae’r rhyngrwyd yn cynnig cyfleoedd unigryw i aelodau’r Coleg, hynny yw, ei ddysgwyr, ei bartneriaid, ei gontractwyr, ei isgontractwyr a’i westeion, i gymryd rhan mewn trafodaethau rhyngweithiol a rhannu gwybodaeth ar bynciau penodol gan ddefnyddio amrywiaeth eang o gyfryngau cymdeithasol. Mae "cyfryngau cymdeithasol" yn derm eang ar gyfer unrhyw fath o lwyfan ar-lein sy'n galluogi pobl i ryngweithio'n uniongyrchol â'i gilydd. Mae llwyfannau cyfryngau cymdeithasol cyffredin yn cynnwys, ymhlith eraill, rhwydweithiau cymdeithasol ar-lein fel Twitter, LinkedIn, Facebook, TikTok, Snapchat, blogiau, podlediadau, fforymau trafod, ffrydiau RSS, a gwefannau rhannu cynnwys fel Instagram a YouTube.

Mae’r Coleg yn annog ei aelodau i ddefnyddio’r cyfryngau hyn, ond rydym hefyd yn cydnabod y gall defnyddio cyfryngau cymdeithasol o bosib achosi risgiau yn enwedig o ran materion yn ymwneud â diogelu, rhaglen PREVENT, bwlio, enw da a gwybodaeth gyfrinachol y Coleg, ac fe allai beryglu ei gydymffurfiaeth â rhwymedigaethau cyfreithiol. Nid yw rhyddid unigolion yn absoliwt ac mae’n ddarostyngedig i derfynau cyfreithiol, moesegol a chytundebol i amddiffyn rhyddid a hawliau’r Coleg ac eraill.

Mae’r polisi hwn yn berthnasol i ddefnydd proffesiynol a phersonol o’r cyfryngau cymdeithasol gan gydweithwyr, dysgwyr, contractwyr a phobl eraill sy’n gwneud gwaith cyflogedig neu wirfoddol ar ran y Coleg.

Er mwyn lleihau'r risgiau hyn, er mwyn osgoi colli cynhyrchiant ac er mwyn sicrhau bod systemau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) y Coleg yn cael eu defnyddio at ddibenion priodol yn unig, rydym yn disgwyl i bob aelod o'r Coleg gadw at y polisi hwn ar safle'r Coleg ac yn eu hamser eu hunain pan fydd hynny'n effeithio ar y Coleg. Yn wir, mae cyfrifoldeb ar bob defnyddiwr i gadw at y polisi hwn. Pan fydd posibilrwydd bod defnydd amhriodol o’r cyfryngau cymdeithasol yn drosedd o dan gyfraith droseddol, caiff y mater ei gyfeirio i'r awdurdodau priodol. Yn ogystal, gall defnyddwyr sy'n torri'r polisi fod yn agored i gamau disgyblu o dan weithdrefnau perthnasol y Coleg.

## 2 Diben

Diben y Polisi Cyfryngau Cymdeithasol yw:

- Annog arfer da.
- Diogelu'r Coleg a'i gydweithwyr.
- Diogelu a gwarchod ei ddysgwyr, ei bartneriaid, ei gontractwyr, ei ymwelwyr a’i westeion.
- Darparu canllawiau penodol ar ddefnyddio’r cyfryngau cymdeithasol (gweler Atodiad 1).
- Hyrwyddo defnydd effeithiol ac arloesol o’r cyfryngau cymdeithasol fel rhan o weithgareddau’r Coleg.
- Diogelu hawliau eiddo deallusol, asedau gwybodaeth, buddiannau ariannol a mantais gystadleuol.
- Cynnal enw da’r Coleg.
- Cydymffurfio â'r gyfraith a helpu i amddiffyn y Coleg a'i gydweithwyr rhag

camau cyfreithiol.

## 3 Cwmpas

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol at ddibenion proffesiynol, academaidd a phersonol, p'un a yw hynny yn ystod oriau'r Coleg neu fel arall, wrth weithio'n annibynnol neu mewn sefyllfaoedd gwaith grŵp, a ph'un a yw'r cyfryngau cymdeithasol yn cael eu defnyddio gydag offer TGCh y Coleg, offer cyhoeddus neu offer personol.

Ystyr cyfathrebiadau proffesiynol yw'r rhai sy'n cael eu gwneud drwy sianeli swyddogol, sy'n cael eu postio ar gyfrif cwrs/ysgol/adran neu gan ddefnyddio enw'r cwrs/ysgol/adran. Mae pob cyfathrebiad proffesiynol o fewn cwmpas y polisi hwn.

Ystyr cyfathrebiadau personol yw'r rhai sy'n cael eu gwneud drwy gyfrifon cyfryngau cymdeithasol personol. Ym mhob achos, os defnyddir cyfrif personol sy'n cysylltu ei hunan â'r Coleg, neu sy'n effeithio ar y Coleg, rhaid ei gwneud yn eglur nad yw'r cydweithiwr yn cyfathrebu ar ran y Coleg gydag ymwadiad priodol. Mae cyfathrebu personol o'r fath o fewn cwmpas y polisi hwn.

Mae cyfathrebiadau personol nad ydynt yn cyfeirio at y Coleg, nac yn effeithio arno, y tu allan i gwmpas y polisi hwn.

Rhoddir ystyriaeth hefyd i gyfathrebiadau academaidd gyda dysgwyr. Gall cydweithwyr ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu â dysgwyr drwy gyfrif cyfryngau cymdeithasol cwrs/ysgol/adran at ddibenion dysgu ac addysgu neu gymorth, ond rhaid iddynt ystyried a yw hyn yn briodol ac ystyried y goblygiadau posib.

Gall torri'r polisi hwn arwain at amrediad o gamau disgyblu gan gynnwys diswyddo neu ddiarddel. Gellir cymryd camau disgyblu p'un a yw torri'r polisi yn digwydd yn ystod oriau'r Coleg ai peidio, a ph'un a ddefnyddir offer neu gyfleusterau'r Coleg at ddiben torri'r polisi ai peidio. Bydd yn ofynnol i unrhyw aelod o'r Coleg yr amheuir eu bod wedi torri'r polisi hwn gydweithredu ag ymchwiliad y Coleg.

Bydd yn ofynnol i aelodau'r Coleg ddileu postiadau ar y rhyngrwyd a/neu bostiadau ar y cyfryngau cymdeithasol y bernir eu bod yn torri'r polisi hwn. Gall methu â chydymffurfio â chais o'r fath arwain at gamau disgyblu.

Bydd y Coleg yn sicrhau bod y polisi hwn yn hygyrch i bob aelod ac yn cyfeirio ato mewn gwybodaeth sefydlu. Yn yr un modd, bydd dysgwyr yn cael arweiniad ar eu cyfrifoldebau drwy sesiynau sefydlu dysgwyr.

Bydd y Coleg yn adolygu ac yn diweddaru'r polisi o bryd i'w gilydd ac yn sicrhau ei fod yn cyfathrebu â'r aelodau ynghylch unrhyw newidiadau o ganlyniad.

### *3.1 Diffiniadau*

Mae'r aelodau'n cynnwys cydweithwyr, dysgwyr, partneriaid, contractwyr, isgontractwyr, ymwelwyr a gwesteion.

## 4 Rheolaeth Sefydliadol

*4.1. Rolau* a Chyfrifoldebau

- Cyfarwyddwr Arloesedd a Strategaeth Ddigidol
    - Datblygu a gweithredu'r polisi cyfryngau cymdeithasol.

- Rheolwyr llinell
    - Gwneud asesiad cychwynnol pan adroddir am ddigwyddiad a chynnwys staff priodol ac asiantaethau allanol yn ôl yr angen.

- Pobl a Diwylliant
    - Hwyluso hyfforddiant ar ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol.

- Rheolwr Marchnata
    - Derbyn ceisiadau i greu cyfrifon cyfryngau cymdeithasol corfforaethol.
    - Cymeradwyo creu cyfrifon.

- Gweinyddwr/Cymedrolwr Cyfrifon Cyfryngau Cymdeithasol
    - Creu cyfrif ar ôl iddo gael ei gymeradwyo.
    - Cadw manylion y cyfrif, gan gynnwys cyfrineiriau, yn ddiogel.
    - Bod yn rhan o'r gwaith o fonitro a chyfrannu at y cyfrif.
    - Rheoli'r broses o ymdrin â'r cyfrif ar ôl i'r aelod arweiniol o staff adael y sefydliad (cau neu drosglwyddo).
- Cydweithwyr
    - Gwybod cynnwys y polisi hwn a pholisïau perthnasol eraill, a sicrhau bod unrhyw ddefnydd o'r cyfryngau cymdeithasol yn cydymffurfio â'r polisïau hynny.
    - Gwneud hyfforddiant priodol.
    - Monitro, diweddaru a rheoli cynnwys maen nhw wedi'i bostio drwy gyfrifon ysgol/cwrs yn rheolaidd
    - Ychwanegu ymwadiad priodol at gyfrifon personol wrth enwi'r Ysgol/Coleg

Bydd y Coleg yn sicrhau bod y polisi hwn yn hygyrch i bob aelod ac yn cyfeirio ato mewn gwybodaeth sefydlu. Yn yr un modd, bydd dysgwyr yn cael arweiniad ar eu cyfrifoldebau drwy sesiynau sefydlu dysgwyr.

Bydd y Coleg yn adolygu ac yn diweddaru'r polisi o bryd i'w gilydd ac yn sicrhau ei fod yn cyfathrebu â'r aelodau ynghylch unrhyw newidiadau o ganlyniad.

### *4.2 Proses ar gyfer Creu Cyfrifon Cyfryngau Cymdeithasol Corfforaethol*

Anogir aelodau'r Coleg i ystyried a fydd cyfrif cyfryngau cymdeithasol yn eu helpu yn eu gwaith. Rhaid i unrhyw un sy'n dymuno creu cyfrif o'r fath gyflwyno achos busnes i'r

rheolwr marchnata ei gymeradwyo sy’n cwmpasu’r pwyntiau canlynol:

- nod y cyfrif
- y gynulleidfa arfaethedig
- sut bydd y cyfrif yn cael ei hyrwyddo
- pwy fydd yn rhedeg y cyfrif (dylid enwi o leiaf ddau gydweithiwr)
- a fydd y cyfrif yn agored neu'n breifat/yn gaeedig

Yn dilyn ystyriaeth gan y rheolwr marchnata, bydd cais yn cael ei gymeradwyo neu ei wrthod. Ym mhob achos, rhaid iddynt fod yn fodlon bod unrhyw un sy’n rhedeg cyfrif cyfryngau cymdeithasol ar ran y Coleg wedi darllen a deall y polisi hwn ac wedi cael hyfforddiant priodol. Mae hyn hefyd yn berthnasol i unrhyw un nad yw'n cael ei gyflogi'n uniongyrchol gan y Coleg, gan gynnwys gwirfoddolwyr neu rieni/gofalwyr.

### *4.3 Monitro Cyfrifon Cyfryngau Cymdeithasol*

Mae Coleg y Cymoedd yn cadw’r hawl i fonitro unrhyw wefannau cyfryngau cymdeithasol corfforaethol sy’n gysylltiedig â’r Coleg a, phan fydd angen, i ofyn am i’r gwefannau hynny sy’n adlewyrchu’n negyddol ar y Coleg gael eu dileu, neu am i gynnwys sy’n torri ar hawlfraint y Coleg neu sy’n awgrymu cysylltiad diawdurdod gael ei ddileu.

### *4.4 Cyfrifoldebau Cymedrolwyr/Gweinyddwyr Gwefan*

Os byddwch yn sefydlu gwefan cyfryngau cymdeithasol ar gyfer y Coleg, byddwch i bob pwrpas yn dod yn weinyddwr ar y wefan honno ar ran y Coleg a byddwch yn gyfrifol am gynnal y wefan a chymedroli'r cynnwys. Mae'n bwysig bod o leiaf un aelod arall yn rhannu cyfrifoldebau gweinyddwr am y wefan ac yn cael mynediad at y manylion mewngofnodi er mwyn sicrhau parhad ac i gynorthwyo gyda gwaith cymedroli.

Dylid bod yn ofalus wrth enwi cyfrifon er mwyn cynnal cysondeb a sicrhau y gellir eu hadnabod yn hawdd ac yn glir fel cyfrifon y Coleg, gan ddefnyddio brand a logo swyddogol y Coleg neu geisio cymeradwyaeth yr Adran Farchnata i ddefnyddio brand a logo gwahanol.

Rhaid i weinyddwyr gwefannau fod â dealltwriaeth o'r egwyddorion sylfaenol a'r ymddygiad sy'n gysylltiedig â rheoli gwefan cyfryngau cymdeithasol effeithiol.

Rhaid i weinyddwyr gwefannau cyfryngau cymdeithasol y Coleg gadw at y canlynol:

- Sicrhau bod y wefan yn cydymffurfio â thelerau ac amodau’r llwyfan cyfryngau cymdeithasol sy’n cael ei ddefnyddio.
- Sicrhau nad yw'r wefan yn torri canllawiau brand y Coleg.
- Sicrhau bod cyfrineiriau a ffyrdd eraill o reoli mynediad yn ddigon cadarn a’u bod yn cael eu cadw'n ddiogel. Mae unrhyw un sy'n defnyddio dyfais bersonol i reoli cyfrifon cyfryngau cymdeithasol y Coleg yn gyfrifol am sicrhau bod eu system weithredu a'u meddalwedd gwrth-firws yn gyfredol, a bod y ddyfais wedi'i hamgryptio, ac wedi’i diogelu gydag allwedd amgryptio / cyfrinair cryf rhag ofn y bydd yn cael ei cholli.

- Sicrhau caniatâd cyn postio, rhannu neu ddosbarthu deunyddiau sydd o dan hawlfraint gan sicrhau nad yw postiadau yn torri deddfau diogelu data perthnasol, nac yn torri cyfrinachedd.
- Dim ond rhoi dolenni at gynnwys cyfreithlon ac edrych ar unrhyw gynnwys cyn rhoi dolen ato.
- Sicrhau nad oes cynnwys na sylwadau sy’n niweidio enw da’r Coleg.
- Sicrhau nad oes cynnwys sydd â gwybodaeth gyfrinachol neu berchnogol am Goleg y Cymoedd na’i ddysgwyr, ei aelodau staff na’i gyn-ddysgwyr.
- Osgoi defnyddio’r cyfryngau cymdeithasol wrth addysgu mewn ffordd a allai fod yn niweidiol.
- Rheoli’r wefan mewn modd effeithiol i sicrhau adborth a chymorth amserol pan fydd angen.
- Rhaid i’r holl bostiadau cyfryngau cymdeithasol a gyhoeddir o gyfrifon swyddogol ‘Coleg y Cymoedd’ ac o gyfrifon lefel Ysgol (e.e. ‘Yr Ysgol Chwaraeon, Teithio a Gwasanaethau Cyhoeddus’) fod yn ddwyieithog neu rhaid cael postiadau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Fodd bynnag, nid oes rhaid i gyfrifon sy’n cael eu dal gan aelodau unigol o staff a chyfrifon sy’n cael eu dal gan is-grŵp o fewn Ysgol (e.e. ‘Chwaraeon’) bostio’n ddwyieithog.
- Os bydd unrhyw un yn cysylltu â’r Coleg yn Gymraeg drwy’r cyfryngau cymdeithasol – rhaid i’r Coleg ateb yn Gymraeg.

Pan ddefnyddir gwefannau cyfryngau cymdeithasol i archwilio cynnwys dadleuol fel rhan o astudiaethau academaidd, rhaid i’r gweinyddwyr sicrhau bod cyd-destun ac ymwadiadau priodol yn cael eu darparu ac, os yw hynny’n bosib, cymryd unrhyw fesurau rhesymol i gyfyngu ar fynediad at y cynnwys.

Eiddo’r defnyddwyr yw’r sylwadau maen nhw’n eu gwneud, ac ni ddylid eu hailddefnyddio heb eu caniatâd.

Ni ddylid defnyddio llwyfannau cyfryngau cymdeithasol i gasglu gwybodaeth bersonol am ddefnyddwyr.

### *4.5 Cymedroli Cynnwys*

Dylai gwefannau cyfryngau cymdeithasol y Coleg annog defnyddwyr i rannu eu barn drwy roi sylwadau ar gynnwys o fewn y canllawiau canlynol:

- Rhaid i sylwadau fod yn berthnasol i'r pwnc sy'n cael ei drafod.
- Dylai sylwadau fod yn adeiladol, heb ddim rhegi, ac ni ddylent fod yn anweddus nac yn ddi-chwaeth.
- Dylai postiadau sydd oddi ar y pwnc, sy’n sarhaus, sy'n cynnwys rhegi, sy'n fygythiol neu’n aflonyddol eu tôn, neu sy'n dirywio i ymosodiadau personol, gael eu dileu ar unwaith, a dylid adrodd amdanynt os oes angen.
- Dylai postiadau sydd â dolenni y sylweddolir eu bod yn sbam neu’n ddolenni

gwerthu a hysbysebu, neu eu bod yn torri hawlfraint, gael eu dileu ar unwaith.

Pan fydd hynny'n bosib, dylai canllawiau ar gyfer postio cynnwys gael eu harddangos yn amlwg ar y wefan cyfryngau cymdeithasol, ynghyd â datganiad bod gweinyddwyr y wefan yn cadw'r hawl i adolygu'r holl sylwadau a deunyddiau sy'n cael eu postio ac i ddileu deunyddiau o'r fath am unrhyw reswm.

Pan fydd modd, dylid ymdrin â chwynion drwy neges uniongyrchol neu e-bost, nid ar fforwm cyhoeddus. Dylid monitro a diweddaru gwefannau cyfryngau cymdeithasol y Coleg yn rheolaidd.

Pan fydd postiad defnyddiwr yn codi mater sy'n ymwneud â dyletswydd gofal, dylai gweinyddwyr y wefan geisio cyngor gan y rheolwr priodol.

## 5. Arfer sy'n cael ei annog

Mae'r Coleg yn cefnogi defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol gan aelodau pan fydd hynny'n ychwanegu gwerth at wasanaethau presennol, er enghraifft at ddibenion:

- Defnydd academaidd – Mae'r Coleg yn cydnabod bod gan y cyfryngau cymdeithasol botensial i gefnogi a hyrwyddo gwaith recriwtio ac mae'n annog defnydd ohonynt yn y modd hwn. Llwyfannau a thechnolegau dysgu presennol sy'n cael eu cefnogi (e.e. Teams) yw'r dewis sy'n cael ei ffafrio fel sianeli cyfathrebu digidol uniongyrchol gyda dysgwyr sy'n ymwneud ag addysgu, dysgu, asesu, cymorth a lledaenu gwybodaeth ar draws y Coleg.
- Defnydd cydweithredol – Mae'r Coleg yn cefnogi cydweithio mewnol (ar draws Cyfadrannau / Adrannau) ac allanol ac yn cydnabod y gall y cyfryngau cymdeithasol gynnig cyfleoedd i gefnogi gwaith o'r fath.
- Defnydd Cyfathrebu, Cysylltiadau Allanol a Masnachol – Mae'r Coleg yn cydnabod y cyfle i gyfathrebu â darpar gwsmeriaid a chwsmeriaid presennol drwy'r cyfryngau cymdeithasol.
- Defnydd dysgwyr – Mae darpar ddysgwyr a dysgwyr presennol, ynghyd ag eraill sydd â diddordeb yn y Coleg, yn weithgar ar y cyfryngau cymdeithasol, e.e. drwy sefydlu grwpiau Facebook a blogio. Gall swyddogion Marchnata a Recriwtio edrych ar y gwefannau hyn, os yw hynny'n briodol, i gael dealltwriaeth bellach o anghenion cwsmeriaid y Coleg. Dylai ymatebion posib i unrhyw faterion dadleuol sy'n cael eu gweld ar wefannau cyfryngau cymdeithasol answyddogol gael eu cyfeirio at y Tîm Marchnata yn y lle cyntaf.
- Defnydd cyn-ddysgwyr – Mae'r Coleg yn cydnabod y cyfle i gyfathrebu â dysgwyr presennol a chyn-ddysgwyr drwy'r cyfryngau cymdeithasol er mwyn datblygu perthynas barhaus gyda nhw. Yr Adran Farchnata sy'n bennaf cyfrifol am gysylltiadau gyda chyn-ddysgwyr.

## 6. Recriwtio Staff

Mae'r Coleg wedi ymrwymo i weithdrefnau recriwtio a dethol teg, agored ac atebol.

Mae'r Coleg yn cadw'r hawl i adolygu proffiliau cyfryngau cymdeithasol cyhoeddus fel rhan o'r broses recriwtio. Fodd bynnag, rhaid i unrhyw chwiliadau o'r fath gydymffurfio â deddfau Cydraddoldeb, Hawliau Dynol a Diogelu Data.

Os bydd chwiliad o broffil cyfryngau cymdeithasol cyhoeddus ymgeisydd yn datgelu gwybodaeth am yr unigolyn sy'n peri pryderon cyfreithiol difrifol neu bryderon difrifol o ran enw da'r Coleg, rhaid i'r rheolwr cyflogi geisio cyngor gan y tîm Pobl a Diwylliant.

Gall y Coleg ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo postiadau hysbysebu i ddarpar ymgeiswyr ac i ganfod ymgeiswyr posib. Fodd bynnag, wrth wneud hynny, rhaid cymryd gofal arbennig i osgoi rhagfarn ddiarwybod. Bydd y Coleg hefyd yn defnyddio sianeli eraill i roi cyhoeddusrwydd i swyddi gwag er mwyn sicrhau nad yw darpar ymgeiswyr nad ydynt yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn cael eu cau allan. Mae angen i unrhyw un sy'n dymuno defnyddio cyfryngau cymdeithasol fel LinkedIn i hysbysebu swydd wag sicrhau bod y ddolen i'r swydd wag ar wefan y Coleg wedi'i chynnwys a bod eu neges yn gyson â'r meini prawf a nodir yn y postiad ar y wefan.

## 7. Defnyddiau Posib Eraill

Mae'r Coleg yn cadw'r hawl i adolygu proffiliau cyfryngau cymdeithasol cyhoeddus fel rhan o'r broses recriwtio dysgwyr. Fodd bynnag, rhaid i unrhyw chwiliadau o'r fath gydymffurfio â deddfau Cydraddoldeb, Hawliau Dynol a Diogelu Data.

Gall y Coleg gyfeirio at wefannau rhwydweithio cymdeithasol wrth ymchwilio i achosion o dorri disgyblaeth neu gŵyn gyflogaeth, e.e. aflonyddu, ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Gall y Coleg fonitro defnydd aelodau o'r cyfryngau cymdeithasol, ynghyd â'u defnydd ehangach o adnoddau technoleg gwybodaeth y Cwmni, i sicrhau bod aelodau'n cydymffurfio â'r Polisi hwn. Pryd bynnag y bydd aelodau'n defnyddio ein hadnoddau a'n systemau technoleg gwybodaeth, byddant yn rhoi eu caniatâd i ni fonitro eu gweithgareddau.

Gall y Coleg fonitro fforymau a blogiau i gael adborth anuniongyrchol ar wasanaethau a chyfleusterau'r Coleg. Gall y Coleg bostio atebion ar fforymau a blogiau er mwyn ateb ymholiadau neu fynd i'r afael â chywiriadau ffeithiol, ond yn gyffredinol bydd yn cymryd gofal cyn ymuno mewn trafodaeth ynghylch unrhyw faterion dadleuol.

Mae'r Coleg yn cadw'r hawl i gymryd unrhyw gamau angenrheidiol i ddiogelu ei gyfleusterau a'i aelodau rhag maleiswedd (meddalwedd faleisus) gan gynnwys blocio gwefannau pan fydd hyn yn broblem.

Os cawn gŵyn bod rhywun yn bwlio neu'n aflonyddu ar ddysgwr neu gydweithiwr drwy'r cyfryngau cymdeithasol, gellir gweithredu Polisi Disgyblu, Cwynion Cyflogaeth neu Gwynion y Coleg.

## 9.Monitro ac Adolygu

Bydd Coleg y Cymoedd yn adolygu polisïau, gweithdrefnau a chanllawiau yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod statws dosbarthu gwahanol ddogfennau yn ddilys.

**Atodiad 1 – Canllawiau**

Dylai'r Aelodau nodi'r rheoliadau canlynol ynghylch presenoldeb personol ar y rhyngrwyd:

- Defnyddiwch gyfeiriad e-bost personol ac nid eich cyfeiriad e-bost Coleg.
- Fe'ch atgoffir i osod eich gosodiadau personol ar wefannau cyfryngau cymdeithasol er mwyn sicrhau nad yw gwybodaeth amhriodol yn cael ei gwneud yn gyhoeddus drwy gamgymeriad.
- Dylech barchu preifatrwydd a theimladau pobl eraill a bod yn ymwybodol y gallai gwneud sylwadau am rai nodweddion personol fod yn gyfystyr ag aflonyddu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac y gallech wynebu erlyniad o dan y ddeddfwriaeth honno neu o dan ddeddfwriaeth arall.
- Ni ddylech gynnwys manylion cyswllt na lluniau ac ati o bobl eraill heb eu caniatâd ymlaen llaw. Cofiwch, os byddwch chi'n torri'r gyfraith ar eich gwefan (er enghraifft, drwy bostio rhywbeth difenwol), chi fydd yn bersonol gyfrifol.

Mae gan bob Rheolwr Llinell gyfrifoldeb i sicrhau bod eu haelodau staff yn ymwybodol o'r polisi hwn ac i gymryd camau os byddant yn dod yn ymwybodol o unrhyw achos o'i dorri.

*1.1 Postio Cynnwys i Wefannau Cyfryngau Cymdeithasol*

Dylai aelodau gymryd yn ganiataol y bydd popeth y maent yn ei bostio ar-lein yn gyhoeddus ac yn barhaol, beth bynnag yw'r gosodiadau preifatrwydd y maent yn tybio eu bod ar waith.

Dylai aelodau fod yn ymwybodol bod cynnwys cyfryngau cymdeithasol yn rhan o ôl troed digidol aelod ac y gallai ddod ar gael yn hawdd i'r cyhoedd, gan gynnwys y Coleg, dysgwyr, a'r cyfryngau. Gallai defnydd amhriodol niweidio eu henw da a'u rhagolygon gyrfa, yn enwedig yn achos dysgwyr sy'n astudio cyrsiau sy'n arwain at gymhwyster proffesiynol.

Mae'r Coleg yn cadw'r hawl i weithredu ar sail unrhyw wybodaeth o ffynonellau ar-lein os yw'n awgrymu bod aelod yn torri'r Cod Ymddygiad ar gyfer staff, dysgwyr, neu bolisïau eraill y Coleg.

Dylai aelodau ymgyfarwyddo â thelerau ac amodau unrhyw wefan cyfryngau cymdeithasol y maent yn ei defnyddio a nodi bod llawer o gwmnïau sy'n gweithredu llwyfannau cyfryngau cymdeithasol yn datgan bod postio ar eu gwefannau yn rhoi trwydded barhaus, digyfyngiad a di-alw'n-ôl i'r cwmni ddefnyddio a dosbarthu cynnwys at unrhyw ddiben, masnachol, hysbysebu neu fel arall.

Wrth ddefnyddio cyfrif cyfryngau cymdeithasol personol, dylai aelodau ystyried cynnwys ymwadiad, pan fydd hynny'n briodol, sy'n datgan nad safbwyntiau'r Coleg yw'r safbwyntiau a fynegir o reidrwydd.

*1.2 Canllawiau Cyfryngau Cymdeithasol*

- Dylech gymryd cyfrifoldeb personol am eich cynnwys cyfryngau cymdeithasol. Os gellir eich adnabod fel rhywun sy'n gweithio i'r Coleg, dylech sicrhau bod eich proffiliau, ac unrhyw beth rydych yn ei bostio neu'n ei gydnabod ar-lein (e.e. drwy ei 'hoffi'), yn gyson â'r ffordd y mae'r Coleg yn disgwyl i chi gyflwyno'ch hunan i gydweithwyr, dysgwyr, rhieni a phartneriaid. Os oes gennych unrhyw amheuaeth ynghylch yr hyn sy'n dderbyniol a'r hyn nad yw'n dderbyniol, dylech drafod hyn gyda'ch rheolwr llinell.
- Dylech ddiogelu buddiannau'r Coleg ac ni ddylech gyhoeddi unrhyw beth a allai eu niweidio yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol neu a allai beryglu enw da'r Coleg. Dylai cyfathrebiadau digidol fod yn broffesiynol ac yn barchus bob amser wrth ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol.
- Ni ddylech BYTH ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol:
    - i bostio sylwadau bygythiol, anweddus, neu regfeydd
    - i fynegi neu gefnogi safbwyntiau rhywiaethol, hiliol, sectyddol neu homoffobaidd
    - i ddatgan cefnogaeth i sefydliad neu weithgarwch anghyfreithlon
    - i ledaenu gwybodaeth gamarweiniol
    - er mwyn gweld neu ddosbarthu cynnwys tramgwyddus neu rywiol cignoeth
    - i dorri neu dresmasu ar hawliau rhywun arall
    - i bostio gwybodaeth bersonol adnabyddadwy y gellid ei defnyddio i leoli unrhyw unigolyn, heb ganiatâd ysgrifenedig yr unigolyn hwnnw
    - i bostio cynnwys a allai greu risg diogelwch i'r Coleg neu ei aelodau
    - i gyfathrebu mewn unrhyw ffordd a allai fod yn anghyfreithlon
- Ni ddylech wneud dim a allai gael ei ystyried yn wahaniaethol yn erbyn, neu'n fwlio neu'n aflonyddu ar unrhyw unigolyn, er enghraifft yn y ffyrdd canlynol:
    - Gwneud sylwadau tramgwyddus neu ddirmygus yn ymwneud ag oedran, anabledd, hunaniaeth rhywedd, statws priodasol neu statws partneriaeth, hil, crefydd/cred neu ddiffyg cred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol, neu unrhyw wahaniaeth arall.
    - Defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i fwlio unigolyn arall (e.e. cyflogai neu ddysgwr)
    - Postio neu gydnabod delweddau sy'n wahaniaethol neu'n dramgwyddus neu ddolenni at gynnwys o'r fath
- Os ydych yn credu bod rhywbeth ar eich gwefan yn codi pryder o ran gwrthdaro buddiannau ac, yn benodol, pryder am ddidueddrwydd neu gyfrinachedd, dylid trafod hynny gyda'ch rheolwr llinell.
- Peidiwch â datgelu gwybodaeth gyfrinachol am y Coleg, ei aelodau, na'i eiddo deallusol. Gallai hyn gynnwys agweddau ar bolisi'r Coleg neu fanylion trafodaethau mewnol. Trafodwch â'ch rheolwr os nad ydych yn sicr beth allai fod yn gyfrinachol.
- Os bydd rhywun yn cynnig talu i chi am gynnwys gwefan, gallai hyn olygu gwrthdaro buddiannau, a rhaid i chi drafod â'ch rheolwr llinell. Cofiwch fod

gofyniad cytundebol i chi gael caniatâd i wneud gwaith gyda thâl neu waith di-dâl y tu allan i'r Coleg.

- Petai rhywun o'r cyfryngau neu'r wasg yn cysylltu â chi ynghylch postiadau ar eich gwefan sy'n ymwneud â'r Coleg, dylech drafod hyn gyda'ch rheolwr llinell a'r tîm Marchnata.
- Ni ddylech ddiweddaru eich gwefan bersonol yn ystod amser gwaith cyflogedig, oni bai bod gweithgareddau o'r fath yn rhan o weithgarwch sy'n gysylltiedig â’r gwaith. Gellir monitro defnydd o’r cyfryngau cymdeithasol gan gydweithwyr tra byddant yn y gwaith, yn unol â pholisïau’r Coleg. Mae'r Coleg yn caniatáu mynediad rhesymol a phriodol at wefannau cyfryngau cymdeithasol preifat. Fodd bynnag, pan fydd amheuaeth o ddefnydd gormodol, a thybiaeth fod hynny’n ymyrryd â dyletswyddau perthnasol, gellir cymryd camau disgyblu.